

Cwestiynau Cyffredin

Cyfeiriwch at y Ddalen Gwybodaeth i Gyfranogwyr yn y lle cyntaf am drosolwg o'r arolwg a sut y defnyddir y canfyddiadau. Mae'r dudalen hon yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth bellach am gwestiynau cyffredin sy'n ymwneud â'r arolwg.

Pam eich bod chi'n gwneud yr arolwg hwn?

Rydyn ni eisiau gweld sut mae'r pandemig Covid-19 a'r cyfnodau clo yn effeithio ar bobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r arolwg hefyd yn cael ei gynnal ar wahân ymysg y cyhoedd yn gyffredinol er mwyn i ni allu deall barnau gwahanol grwpiau o bobl.

Pwy sy'n gwneud yr arolwg hwn?

Mae'r Arolwg Cenedlaethol o Dystiolaeth ar gyfer Ansawdd yn cael ei gynnal gan Ipsos MORI, asiantaeth arolwg annibynnol, ar ran Canolfan Dynameg Ethnigrwydd ym Mhrifysgol Manceinion.

Mae **CoDE** yn rhaglen ryngddisgyblaethol bedair blynedd o ymchwil sy'n ymwneud â deall anghydraddoldebau a hunaniaethau ethnig sy'n newid. Am fwy o wybodaeth ewch i:

<https://www.cmi.manchester.ac.uk/research/projects/code/>

Sut ydw i'n cymryd rhan?

Gallwch gael mynediad i'r arolwg cofrestru i weld os ydych chi'n gymwys i gymryd rhan yn y prif arolwg trwy glicio yma:

<https://surveys.ipsosinteractive.com/surveys/?p=jZt9VfdUz0lpKjKSVU19dx7XQuIvdP%2bHMIFDym5lOKg3UL40L4YcPmzT3Zhgs2XRRcsH3f9aYbvF9XZJqv9RXf%2f2dIVd2Xvs3qZdmM5qxS4%3d&id=partxt est>

Oes rhaid i mi gymryd rhan ar-lein?

Na, gallwch hefyd gymryd rhan ar y ffôn drwy ffonio 0808 1296800 a gadael neges yn gofyn am gael eich galw'n ôl (gweler yr adran 'Cysylltu' ar y dudalen gymorth hon).

Faint yw galwadau i'r llinell gymorth?

Mae rhifau'r llinell gymorth i gyd am ddim.

Oes rhaid i mi ateb yr holl gwestiynau?

Mae ateb y cwestiynau hyn yn gwbl wirfoddol, felly does dim rhaid i chi wneud hynny. Gobeithiwn y byddwch yn cymryd rhan, gan y bydd hyn yn rhoi'r darlun gorau posibl i ni. Bydd dewis "Gwell gen i beidio ateb" ar gael i chi ei ddewis ar gyfer yr holl gwestiynau demograffig os mai dyna yw eich dewis.

A allaf gwblhau'r arolwg mewn iaith arall?

Gallwch hefyd gwblhau'r arolwg mewn 13 o ieithoedd amgen drwy ddewis yr un sydd orau gennych ar ddechrau'r arolwg (sylwer efallai na fydd arolygon mewn gwahanol ieithoedd ar gael ar unwaith). Gellir cwblhau'r arolwg ffôn mewn iaith arall hefyd. Bydd opsiynau iaith yn cynnwys Arabeg, Bengaleg, Tsieinëeg, Gwjarati, Pwyleg, Portiwgaleg, Pwnjabi: Gwrnwkhî, Pwnjabi: Shahmwkhî, Rwmaneg, Somalieg, Tyrceg, Wrddw a Chymraeg.

Sut alla i hawlio fy nhaleb anrheg?

Anfonir y daleb anrheg atoch yn awtomatig unwaith y byddwch yn cwblhau'r arolwg llawn. Os nad ydych wedi derbyn eich taleb o fewn pythefnos i gwblhau'r arolwg, cysylltwch â epanel-uk@i-say.com gan ddyfynnu '20-089809-01 - EVENS survey voucher'.

Sut bydd y data a ddarparaf yn yr arolwg yn cael ei ddefnyddio?

Cyfeiriwch at y Ddalen Wybodaeth i Gyfranogwyr (sydd i'w gweld ar y dudalen gymorth hon) i gael rhagor o fanylion am sut y caiff y data ei ddefnyddio ac ar weithdrefnau diogelu data.

A allaf gymryd seibiant ran o'r ffordd drwy gwblhau'r arolwg ar-lein?

Cewch, wrth gwblhau'r arolwg ar-lein, mae eich cynnydd yn cael ei gadw yn awtomatig. Gallwch gau ffenestr y porwr sy'n cynnwys yr arolwg pryd bynnag y byddwch yn hoffi - bydd eich cynnydd yn cael ei gadw. Pan fyddwch yn barod i barhau i lenwi'r arolwg, dychwelwch i dudalen yr arolwg drwy glicio ar y ddolen a anfonwyd atoch.

Pam y gofynnwyd i mi ddarparu fy nghod post a'm dyddiad geni?

Cesglir y data hwn i sicrhau bod yr ymchwil yn cynrychioli barn ystod eang o bobl, er enghraifft pobl o wahanol oedrannau a phobl sy'n byw mewn ardaloedd daearyddol gwahanol. Nid oes rhaid ichi ateb y cwestiwn hwn os nad ydych yn dymuno gwneud.

I gael rhagor o wybodaeth am gwestiynau cyffredin sy'n ymwneud â diben yr ymchwil a'r defnydd o ddata, cyfeiriwch at y Ddalen Wybodaeth i Gyfranogwyr. Ceir rhagor o fanylion am breifatrwydd data hefyd yn Hysbysiad Preifatrwydd Prifysgol Manceinion a Pholisi Preifatrwydd Ipsos MORI. Ar gyfer unrhyw ymholiadau atodol ble nad oes ateb ar dudalen wybodaeth Ipsos MORI, anfonwch e-bost at: evenssurvey@ipsos-mori.com